

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Sir Gar ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Crynodeb i Aelodau

Corff statudol a sefydlwyd gan bob awdurdod lleol yng Nghymru yw cyngor ymgynghorol sefydlog ar grefydd, gwerthoedd a moeseg. Ei brif bwrpas yw cynghori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud â chrefydd, gwerthoedd a moeseg a'r weithred addoli ddyddiol ar y cyd mewn ysgolion.

Mae pob cyngor ymgynghorol sefydlog ar grefydd, gwerthoedd a moeseg yn cynnwys tri grŵp statudol.

Grŵp A: Cynrychiolwyr enwadau Cristnogol, amrywiaeth o draddodiadau crefyddol eraill a safbwyntiau anghrefyddol.

Grŵp B: Cynrychiolwyr cymdeithasau athrawon.

Grŵp C: Cynrychiolwyr yr awdurdod lleol (aelodau etholedig fel arfer).

Mae gan bob grŵp un bleidlais (pan fydd angen pleidleisiau), a gall cyngor ymgynghorol sefydlog ar grefydd, gwerthoedd a moeseg hefyd gynnwys aelodau cyfetholedig (nad ydynt yn pleidleisio) i adlewyrchu amrywiaeth leol neu ddarparu arbenigedd.

Mae cyfrifoldebau allweddol cyngor ymgynghorol sefydlog ar grefydd, gwerthoedd a moeseg yn cynnwys

- Cynghori'r awdurdod lleol ar grefydd, gwerthoedd a moeseg a'r weithred addoli ddyddiol ar y cyd.
- Monitro a chefnogi ansawdd crefydd, gwerthoedd a moeseg a'r weithred addoli ddyddiol ar y cyd mewn ysgolion.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi gweithgareddau a chyngor.
- Ystyried penderfyniadau (ceisiadau gan ysgolion i addasu gofynion gweithredoedd addoli dyddiol ar y cyd).
- Argymhell diweddariadau i'r maes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg.
- Hyrwyddo cydlyniant cymunedol a chyd-ddealltwriaeth rhwng pobl o bob ffydd.

Fel aelod o gyngor ymgynghorol sefydlog ar grefydd, gwerthoedd a moeseg, mae eich rôl yn cynnwys: 1. Cynrychioli aelodau eich cymuned neu eich grŵp noddi a rhannu gwaith y cyngor ymgynghorol ar grefydd, gwerthoedd a moeseg â nhw. 2. Cyfranogi mewn trafodaethau â pharch ac agwedd agored. 3. Mynd i gyfarfodydd yn rheolaidd a chyfrannu'n weithredol atynt. 4. Cefnogi cysylltiadau rhwng ysgolion a chymunedau, gan gynnig cyngor ac adnoddau. 5. Cynnal gwerthoedd crefydd, gwerthoedd a moeseg a gweithredoedd addoli dyddiol ar y cyd sy'n gynhwysol ac o safon uchel.

Mae cynghorau ymgynghorol sefydlog ar grefydd, gwerthoedd a moeseg yn llunio addysg gynhwysol drwy gefnogi crefydd, gwerthoedd a moeseg a

gweithredoedd addoli dyddiol ar y cyd o safon uchel sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn yr oes fodern.

Mae eich cyfranogiad yn cefnogi datblygiad disgyblion, cytgord cymdeithasol ac ymgysylltu â'r gymuned.